OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2458 (Cy. 268)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd 25A, Cylchfan Grove Park, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd 25A, Cylchfan Grove Park, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o gefnffordd yr A4042, yn Ninas Casnewydd, a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn o'r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw'r darn o draffordd yr M4, yn Ninas Casnewydd, a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Medi 2012

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

### CEFNFFORDD YR A4042

i) Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Grove Park hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Caerllion.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Caerllion hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Grove Park.

### ATODLEN 2

### TRAFFORDD YR M4

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25A, Grove Park, sy'n cysylltu â'r A4042.